



CEDAR: Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd

Bwletin Chwarterol

Mehefin 2024, Rhifyn 7

Mae CEDAR wedi ymrwmo i gefnogi gofal claf-ganolog, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, trwy ymchwil a gwerthuso ymyriadau iechyd, technolegau a gwasanaethau'r GIG.

YN Y RHIFYN HWN

Newyddion CEDAR

Uchafbwyntiau diweddar gan y tîm

Uchafbwyntiau'r Prosiect

Darganfyddwch pa brosiectau sydd wedi camu ymlaen yn CEDAR y chwarter hwn

Arddangosfa Ffrwd Gwaith

Dysgwch am reoliad dyfeisiau meddygol - un o'r nifer o feysydd arbenigedd o fewn CEDAR

Sbotolau Staff

Clywch gan Michael Beddard, Uwch Ymchwilydd yn CEDAR.

Newyddion CEDAR

- Llongyfarchiadau i Hawys Waddington a Rob Palmer am ennill gwobr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg y Bwrdd Clinigol am eu gwaith ledled Cymru yn darparu adnoddau dwyieithog i gefnogi cynwysoldeb mewn gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth.
- Ym mis Mai, aeth Judith White, Ruth Poole a Susan Peirce i gynhadledd y Fforwm Ymchwil a Datblygu yn y Celtic Manor, Casnewydd. Roedd yr ychydig ddyddiau hyn yn ddiddorol iawn gan sôn am reoli astudiaethau ymchwil clinigol o bob rhan o'r DU, ac roedd yn gyfle i rwydweithio ag eraill sy'n gweithio ar brosiectau tebyg. Cyflwynwyd posteri CEDAR ar redeg Ymchwiliadau Clinigol i Ddyfeisiadau Meddygol; partneriaeth ymchwil glinigol/academaidd Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd gyda'r adran Podiatreg; a Sefydlu Gwerthusiad Proses ochr yn ochr â Threial Rheoledig ar Hap, gyda staff yn gyfranogwyr.
- Mae sawl aelod o dîm CEDAR wedi bod ar gyrsiau ôl troed carbon a chynaliadwyedd mewn gwella ansawdd (SusQI), sy'n cael eu rhedeg gan y [Canolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy](#), i helpu'r tîm i ymgorffori ystyriaethau cynaliadwyedd yn ein prosiectau.
- Mae Christina Lloydwin wedi'i derbyn ar gwrs [Crwsibl Cymru](#), sy'n cynnwys tri gweithdy deuddydd manwl sy'n anelu at hwyluso adeiladu rhwydwaith, sefydlu cydweithrediaidau a gwella profffiliau proffesiynol ymchwilydd.
- Mae CEDAR yn falch iawn o gyhoeddi bod yr astudiaeth PREMIERE ('Patient Reported Experience Measures in Vascular Surgery Enhancement Study') wedi derbyn cymeradwyaeth foesegol. Nod yr astudiaeth yw datblygu PREM penodol i gleifion sydd wedi cael llawdriniaeth fasnwl ac mae mewn cydweithrediad â chydweithwyr fasnwl Miss Maram Darwish a Mr David Bosanquet ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Darllenwch ragor am yr astudiaeth ar ein gwefan [yma](#).
- Rydym yn falch iawn i rannu bod y treial ADAPT-Sepsis bellach wedi cyrraedd ei darged recriwtio o 2761 o gyfranogwyr. Mae CEDAR yn cynnal gwerthusiad proses dulliau cymysg o'r treial, o'r enw [PREADAPT-Sepsis](#).
- Mynychodd arweinydd ymchwil CEDAR, Judith White, gyfarfod blynyddol Adolygiadau Gofal Critigol 2024 yn Belfast ym mis Mehefin gyda Matt Wise, Jade Cole, a Helen Hill o dîm Gofal Critigol Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae'r cyfarfod hwn yn gyfle i glywed canfyddiadau treialon gofal critigol proffil uchel fel A2B, BLING III, a HEMOTION. Yn y llun uchod mae Judith, Helen a Jade.



UCHAFBWyNTIAU'R PROSIECT

OECD (Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd)

Mae CEDAR yn cefnogi Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru (WViHC) yn ei rôl fel Rheolwr Prosiect Cenedlaethol Cymru ar gyfer menter OECD PaRIS (Arolygon Dangosyddion a Adroddir gan Gleifion). Mae'r astudiaeth yn cynnwys 19 o wledydd a'i nod yw helpu i ddeall canlyniadau a phrofiadau oedolion sy'n byw gyda chyflyrau cronig, sy'n cael eu rheoli gan feddygon teulu. Mae CEDAR wedi bod yn ymwneud â strategaethau samplu ar gyfer casglu data a chyfieithu arolygon i'r Gymraeg. Daeth y gwaith o gasglu data yng Nghymru i ben yn 2023, gan arwain at ddata gan >1600 o ddarparwyr gofal sylfaenol a 100,000 o gleifion ledled y byd. O'r niferoedd hyn, roedd 75 o bractisau a >12,000 o gleifion yn dod o Gymru. Mae hyn yn golygu mai hwn yw'r arolwg rhyngwladol mwyaf ar fesurau a adroddir gan gleifion yn fyd-eang a'r astudiaeth feincnodi iechyd yn seiliedig ar ganlyniadau gyntaf gan yr OECD. Cynhelir y cyfarfod rhyngwladol chwe-misol nesaf ym Mharis ym mis Mai i drafod dulliau ar gyfer safoni data'n rhyngwladol ar gyfer cymariaethau gwlad-i-wlad i lywio'r adroddiad blaenllaw (disgwylir yn 2025). Mae'r ddirprwyath o Gymru sy'n mynychu'r cyfarfod yn cynnwys staff o WViHC, DHCW a CEDAR.

Endosgopau IQ

Mae CEDAR yn cynnal gwerthusiad dichonoldeb o weithredu gastrosgop un-tro ([Endosgopau IQ](#)), gan ystyried cynaliadwyedd a gwerth o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP). Comisiynwyd y prosiect fel rhan o gam 2 yr Her Endosgopi sy'n cael ei arwain gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'i gefnogi gan grant gan [Brifddinas-Ranbarth Caerdydd](#) (CCR). Roedd y gwerthusiad hwn yn integreiddio data o adolygiad llenyddiaeth cyflym ar gynaliadwyedd endosgopau untro, arolygon a thrafodaethau gyda chlinigwyr a rheolwyr gwasanaeth, arsylwadau clinigol endosgopi, a dadansoddiad o setiau data arferol. Ein nod oedd mapio'r gwasanaeth gastrosgopi presennol o fewn y bwrdd iechyd, nodi lle gallai gastrosgop untro fod yn fuddiol, ac asesu'r effaith ar gostau, profiad y claf, rhestrau aros, a'r defnydd o staff ac adnoddau. Rhoddwyd pwyslais sylweddol ar effaith amgylcheddol mabwysiadu gastrosgop untro o gymharu ag ailbroseu gastrosgop y gellir ei hailddefnyddio, gan gynnwys cyfrifiadau ôl troed carbon a dadansoddiad cylch bywyd o gastrosgop amlbro.

Asesiad Gwerth Cynnar NICE (EVA) o Dechnolegau Digidol ar gyfer Seicosis

Mae CEDAR yn falch o fod wedi cyfrannu at ganllawiau NICE EVA ar dechnolegau digidol (HTE17) i helpu rheoli symptomau seicosis ac atal ailwaeledd mewn oedolion a phobl ifanc. Pwrpas yr EVA oedd mapio'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer nifer o dechnolegau digidol sy'n rheoli seicosis. Asesodd CEDAR effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd technolegau, gyda'r nod o lywio argymhellion ar ddefnydd amodol o'r technolegau yn y GIG tra bod tystiolaeth bellach yn cael ei chynhyrchu. Roedd canllawiau NICE yn awgrymu y gellir defnyddio tair technoleg iechyd digidol mewn oedolion, tra bod angen mwy o ymchwil i'w defnyddio mewn pobl ifanc. Roedd y canllawiau'n awgrymu y dylai tystiolaeth newydd ganolbwyntio ar ganlyniadau amrywiol gan gynnwys newidiadau mewn symptomau, cyfraddau ailwaeledd, digwyddiadau niweidiol a'r defnydd o adnoddau. Mae'r argymhellion llawn yma: [Canllawiau NICE ar Seicosis EVA](#).

Arddangosfa Ffrwd Gwaith – Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol

Mae Megan Dale (Prif Economegydd Iechyd) ac Ayesha Rahim (Uwch Ymchwilydd) yn trafod arbenigedd CEDAR mewn Rheoleiddio Dyfeisiau Meddygol:

Mae gan CEDAR arbenigedd mewn rheoleiddio dyfeisiau meddygol ac awdurdodi marchnad, gan gynnwys marcio CE (Cydfymffurfiaeth Ewropeaidd) ac UKCA (Asesiad Cydfymffurfiaeth y DU). Yn ddiweddar, mae CEDAR wedi bod yn cynnal hyfforddiant mewnol i ddiweddarau ein gwybodaeth am newidiadau i reoliadau marc CE a chyflwyniad marc UKCA ar ôl i'r DU adael yr UE. Yn ogystal, gyda'r defnydd o dechnolegau digidol yn cynyddu'n gyflym mewn gofal iechyd (gan gynnwys apiau a meddalwedd ar y we), mae CEDAR wedi bod yn ymgyswrtu â'r Meini Prawf Asesu Technoleg Ddigidol (DTAC) sy'n faen prawf cenedlaethol ar gyfer technolegau iechyd digidol a fabwysiadwyd yn y GIG. Mae CEDAR yn rhai cyngor i glinigwyr fel mater o drefn, yn ogystal â sefydliadau fel y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), ar faterion a phroblemau rheoleiddio i lywio treialon clinigol, gwerthusiadau a mabwysiadu dyfeisiau meddygol yn y GIG.

SBOTOLAU STAFF

Yn y rhifyn hwn o Sbotolau Staff, rydym yn siarad â'r Uwch Ymchwilydd, Michael Beddard:



Dywedwch ychydig wrthym amdanoch chi a'ch rôl:

Ymunais â CEDAR fel Uwch Ymchwilydd bron i 3 blynedd yn ôl, ar ôl gweithio'n flaenorol fel arbenigwr gwenwynau i'r Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau. Mae fy ngwaith yn CEDAR yn amrywiol iawn, ond yn bennaf mae'n cynnwys ymchwil ansoddol yn ymwneud â gwerthuso gwasanaethau, cynnwys cleifion a'r cyhoedd, ac ymchwil. Mae gen i hefyd y dasg bwysig iawn o drefnu digwyddiadau cymdeithasol i'r tîm sydd bob amser yn llawer o hwyl!

Pa 3 gair fydddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio CEDAR? Cydweithredol, Talentog ac Effeithiol

Beth yw eich hoff ran o'ch swydd?

Cyfarfod ag amrywiaeth eang o bobl ddiddorol trwy gyfweiliadau a grwpiau ffocws, a dysgu am eu bywydau a'u profiadau.

Dewiswch archbŵer:

Bod yn wal ddynol wrth y rhwyd wrth chwarae dyblau tennis!

Beth sy'n ffaith amdanoch chi y byddai pobl yn synnu ohoni?

Roeddwn i'n arfer bod yn fabolgampwr ac yn cystadlu mewn sawl cystadleuaeth a sioe fawr.